

Daphne

MYFYRDODAU CWYNFANUS;

AR OL Y

PARCH. T. GRIFFITHS,

GWEINIDOG YR EFENGYL, VN MHLITH
YR ANYMDDIBYNWYR,

YN HAWEN, GLYN, BRYNGWENITH, A'R
BRYNMAIR,

SWYDD CEREDIGION;

Yr hwn a hunodd yn yr Arglwydd, ar nos Sabbath, y 24ain
o Fehefin, 1838; wedi bod yn treulio yr holl ddydd yn
gweini yn ngwahanol ranau gwaith ei Arglwydd;

YN 54AIN OED.

GAN Y

PARCH. W. MILES,

TYRHOS.

"Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd Jonathan: cu iawn
tuost genyf fi." 2 Samuel 1. 26.

ABERTEIFI:

ARGRAFFWYD GAN ISAAC THOMAS, HEOL-FAIR.

—
1838.

X205309959

hety hety Jones

Mysfyrdodau Cwynfanus, &c.

1 An brydnawn-gwaith, yn fy annedd,
Daeth i'm clustiau newydd trwm,
Ac mae llawer 'nawr o'i herwydd
A'u calonau fel y plwm;
Am fod un o wylwyr Seion
Wedi gorphen ar ei daith,
'Hedodd adre' trwy'r ehangderau
Draw i drag'wyddoldeb maith.

2 Thomas Griffiths o'r Glynarthen,
Gyda galar d'wedaf hyn,
Mwy ni welir yma'n teithio
Mewn anialwch yn y glyn;
Ar y chwechfed o Fehefin,*
Mewn Cymmanfa ar y llawr,
Dyna'r tro diweddaf gwelais,
Ydyw iaith rhyw filoedd 'nawr.

3 Mae'r Brynmair, ac mae'r Bryngwenith,
A'r Glynarthen yn gyttun,
Ac mae Hawen gyda hyn
'N griddfan am eu banwyl ddyn;
Mae Glandwr ac mae Pontgarreg,
Lle bu droiau'n holi'r plant,
Heddyw'n cwynfan ac och'neidio
Herwydd myn'd â'u hathro bant.

* Cynnaliwyd Cymmanfa ar y pryd yn Brynmair.

- 4 Capel Drindod, nid yw yno,
 Yn cyhoeddi perlau'r iawn,
 Digon Duw i ddyn colledig
 Yn yr iachawdwriaeth lawn;
 Na, fe giliodd draw i rywle,
 I ororau'r æfoedd fry,
 Nid oes mwy trwy'r holl eglwysi
 Ond coffhau y manau bu.
- 5 Pedair blwydd ar ddeg a deugain,
 Gafodd yn y byd i fyw,
 Naw ar hugain lawn o hyny.
 Bu'n bugeilio eglwys Dduw;
 Daliodd atti yn y tywydd,
 Yn ddigloffi trwy'r holl daith,
 Mae ef heddyw'n peraidd ganu
 Wedi gorphen ar ei waith.
- 6 Ca'dd ei urddo pan yn ieuange
 Fry yn Horeb, mynydd Duw,
 Fe fu yno am bum mlynedd
 Yn pregethu'r Iesu gwiw;
 Ar ol hyny fe symmudodd
 At ei ewythr i'r Drewen,
 A llafuriodd trwy'r cyffiniau
 Nes ei lanio draw i'r llen.
- 7 Yr oed ganddo dri dymuniad.
 Nis anghofir hyny mwy,
 Cystudd byr a marw gartre,
 Ar ol cofio'r Oen a'i glwy';
 Cafodd hyn—pa beth na chawsai
 Gwr mor enwog gan y ne' ?
 Gwledda yma yn y boreu,
 A swpperi draw yn nhre.
- 8 Calon rwydd ac aberth boddawl,
 A rhagoriaeth golen'r gair,
 Oedd y pyngciau olaf draethodd,
 Pregeth rador mwy nis cair;

A therfynodd gyda gweddi,
 Cyn i'w dafod fyn'd yn fud.
 Am i egwyddorion Beibl
 Ymledanu dros y byd.

9 Ar y Sabbath ola' o'i fywyd,
 'R oedd yn Hawen gyda'u waith,
 Yn gweinyddu a phregethu
 Mewn rhyw ber nefolaidd iaith ;
 Gwedi hyny'n ol ei aifer,
 Yn pregethu yn y Glyn,
 Cadw seiet wrth ffarwelo
 'R tro diweddaf 'r ochr hyn.*

10 Hed, fy awen, fel y fellten.
 Gwel e'n awr yn nghwm'ni'r Oen,
 Gweithio'n galed ar y Sabbath,
 Cyn dydd Llun yn mynwes Ion ;
 Y pedwerydd dydd ar hugain
 O Fehetin ca'dd e'r cledd,
 Yn mhen tridiau wedi hyny
 Rho'w'd ei gorph ef yn y bedd.

11 Dydd yr angla' byth mi gofia,
 'R dorf ymgasglodd wrth y ty,
 Pryd gweddiodd Jones o Saron,
 Nes y toddai pawb o'r llu ;
 Yna wyth o weinidogion
 Ai a'r marwol i'r ty cwrdd,
 Lle bu lawer gwaith yn gweini
 I'r gyn'lleidfa wrth y bwrdd.

12 Daniel Thomas, Penrhiwgaled,
 A erfyniai fendith Duw,
 Ac am gymhorth i'r cenhadau
 Ddweud yn sobr wrth y byw ;

* Gellir dweud i'r gwas hwn i Grist, fyned o'r
 areithfa i'r orsedd.

Felly, Davies, Aberteifi,

Ai'n ddirifol iawn i'r lan,

Ac a draethai gyda dagrau,

Am y galar sy'n mhob man.

13 Galar Juda am Josiah

Ydoedd sail ei araeth ddwys,

Ac mae lluoedd yn y profiad

Am fod Griffiths dan y gwys;

Evans, Hebron, wedi hyny,

Gyda drych-feddyliau llawn,

A gynghorodd bawb i gredu

Yn y Person roddodd iawn.

14 Huno ynddo oedd y testun,

A gorfoledd yr ail gwrdd,

Yna gweddiodd Rees, Pencadair.

Mewn modd tyner cyn myn'd ffwrdd;

'Nawr gorch'mynwyd ymwasgaru,

I'r ardd gladdu yr ai'r llu,

Felly, rho'w'd ei gorph i orwedd,

Mewn bedd newydd wrth y tŷ.

15 Cyn rho'i llwchyn ar y coffin,

Traethwyd araeth gryno dde'

Gan y Doctor Thomas Phillips,

Mewn modd hwylus wrth y lle;

Yna'r parchus Griffiths, Horeb,

Dr'odd at Lywydd nen a llawr,

Gan gyflwyno'r praidd galarus,

I ofal mwyn y Bugail mawr.

16 Yna'r pridd i'r pridd ga'i fyned,

Yntau'n gorwedd yn y fan,

Yn ddigyffro yn yr amdo,

Hyd nes galwo'r floedd i'r lan;

Gwedi gosod pethau'n drefnus,

Mor anhawdd oedd myned ffwrdd,

Ond mae'n felus cofio'r boreu

Ceir cyd-wledda wrth y bwrdd.

17 Claddfa'r Glyn, pa fodd y cefaist,
 Fath anrhydedd i dy ran,
 Cael i'th grombil wr mor enwog,
 Parchus gan y cryf a'r gwan;
 Gwr i Dduw wrth fyw oedd Griffiths,
 Gwr fu farw yn ei hedd,
 Gwr gaiff godi ar ei ddellw,
 Ar ddiwrnod dadclo'r bedd.

18 Enwog oedd mewn Cymdeithasau
 Er lledanu 'fengyl Duw,
 Ac yndrechai gydag egni
 Ddanfon Beiblau i ddynolryw;
 O! 'i areithiau dwys a'i ddagrau,
 Yn y Cymdeithasau hyn,
 Mynych d wedai, Dyma arddrych
 O gymmundeib Seion fryn.

19 Yr oedd ganddo, tra bu yma,
 Laeth i'r gweiniaid yn y gad,
 A chyhoeddai athrawiaethau
 Dyfnion byngeiau yn y gwa'd;
 'Roedd yn llym yn erbyn pechod,
 Tirion i'r toddedig rai,
 Ond mae heddyw dan y gweryd
 Obry yn y gwely clai.

20 Colled byd a cholled eglwys
 Ydoedd colli'i gwm'ni e',
 Colled pawb trwy'r holl ardaloedd,
 Colled Priod yn ddible;
 Colled mawr i'r claf a'r clwyfus,
 O! 'i dynerwch i'r rhai hyn,
 Mae ef heddyw, nid wy'n ammau,
 'N derbyn gwobrau Seion fryn.

21 Colled pagan draw yn India,
 Ydoedd colli'r enwog hwn,
 Colled hen a llesg, methiedig,
 Rhai'n a helpai dan eu pwn;

Colled mawri'r weryn ieuangc,
 Ie, plant yr Ysgol Sul,
 Fe'u hannogai gyda dagrau
 Gadw'r hyd y llwybr cul.

22 Colled plant ymddifaid Trefdraeth,
 Ei berth'nasau'n ol y cnawd,
 Bu'n ymgeledd tirion iddynt
 Gwell na thad na mam na brawd,
 'R o'w'n yn teimlo'u gwel'd yn wyllo
 Dydd yr angladd, yntau'n fud,
 Hwyl'n ymado, yntau yno,
 'N dawel yn ei wely clyd.

23 'Mrs. Griffiths, paid galaru
 Na gofidio fwy na mwy,
 Mae ef heddyw yn ei elfen,
 Gartre'n iach heb boen na chlwy';
 Ca'dd y drws o' th flaen ychydig,
 Ti canlyni maes o law,
 O mor ddedwydd ail gyfarfod
 Fyth ar dir y bywyd draw.

24 Ar ol gosod lawr yr hanes,
 'Nawr'rwy'n llamu dros y mur,
 Gwel'd ei enaid mawr yn chwerau,
 Draw yn ngwlad y cariad pur;
 Mynych soniai am eneidiau,
 Pan oedd yn y tŷ o glai.
 Eu bod yn tyfu byth mewn gwynfyd
 Neu'n helaethu yn y gwae.

25 Enaid mawr oedd ganddo yma,
 Diau 'i fod ef heddyw'n fwy,
 Treiddio'n mhellach i ddyfnderoedd
 Rhinwedd Aberth marwol glwy';
 Mynych soniai am Galfaria,
 Ac am haeddiant gwaed y groes,
 Mae ef bellach yn y mwyniant,
 Heb un gofid, poen na loes.

26 O mor ddrylliog yw fy enaid
Herwydd colli cyfaill gwir,
'Hedodd draw i drag wyddoldeb
Minnau yn yr anial dir;
Miloedd gofia'r gair diweddaf
Roddodd allan yn Brynmair,*
'Mhen ychydig wedi hyny
Aeth i wlad y delyn aur.

27 O gyfeillion ieuainge anwyl
Cofiwch ei gynghorion dwys,
Pan mae 'i dafod wedi glynu
'N ddistaw obry dan y gwys,
'Roedd yn brefu am eich cwm ni
Pan oedd yma, i gario'r groes;
Ni chewch gynghor mwy o'i enau,
Tra parhao dyddiau'eh oes.

28 Frodyr siriol, trwy'r eglwysi,
Wrth derfynu d'wedaf hyn,
Er ich' gollu bugail fyddlon,
Byw yw'r Oen fu ar y bryn;
Fe sy'n codi'r is-fugeiliaid,
Fe sy'n gwylid dros y praidd,
Llefwn lawer am ei Ysbryd
I'n gwrteithio frig a gwraidd.

*Ffarwel, gyfeillion anwyl iawn,
Dros ennyd fechan ni 'madawn;
Henflych i'r dydd cawn etto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd.

DIWEDD.

Isaac Thomas, Argraffydd, Aberteifi.

David
 and John Jones to Hannah Davies